Gogoniant tragwyddol i'th enw, fy Nuw

Caneuon Ffydd: Rhif 107

Gogoniant tragwyddol i'th enw, fy Nuw,
mae'r byd yn dy gysgod yn bod ac yn byw;
ni flinaist fynd heibio i feiau di-ri'
i gofio pechadur na chofia dydi.

Tydi sydd yn deilwng o'r bri a'r mawrhad,
tydi roddodd fywyd a chynnydd i'r had;
tydi yn dy nefoedd aeddfedodd y grawn,
tydi roddodd ddyddiau'r cynhaeaf yn llawn.

Er maint y daioni a roddi mor hael,
tu cefn i'th drugaredd mae digon i'w gael;
llawenydd yw cofio, er cymaint a roed,
fod golud y nefoedd mor fawr ag erioed.

DYFED, 1850–1923

MYFYRDOD

Dyma emyn a genir yn aml ar wyliau diolchgarwch, yn syml am ei fod yn cyfeirio at yr Un sydd yn rhoi dyddiau'r cynhaeaf inni. Ond a sylwoch chi yn eich ardaloedd eich hunain ar leihad y pwysigrwydd a roddir i Ŵyl y Diolchgarwch? Efallai ei fod a wnelo â'r ffaith mai ychydig ohonom bellach sydd ag unrhyw gyswllt â'r tir neu sy'n trefnu ein hamser o gwmpas y tymhorau. Onid yw hi'n gynhaeaf arnom bob dydd yn ein harchfarchnadoedd, a chynnyrch y byd yn gyfan ar ein silffoedd?

Nid yw hyn yn gwneud i ffwrdd â'n hangen ni i gydnabod ein dyled a'n diolch i'r Un sydd yn rhoi popeth inni, ac fel y dywed Dyfed yn ei bennill cyntaf, wrth synhwyro rywsut ein hanniolchgarwch ninnau:

> ni flinaist fynd heibio i feiau di-ri'
> i gofio pechadur na chofia dydi.

Mae storfeydd Duw yn parhau'n ddihysbydd, yn llawn daioni, trugaredd a maddeuant, a dim ond pan dderbyniwn bethau o'r storfa fawr hon y gwelwn ni nad ydy hi'n mynd ddim llai a bod 'golud y nefoedd mor fawr ag erioed'.

Fe ofynnodd pregethwr i'w gynulleidfa un tro, 'Faint mor fawr ydy eich Duw chi? Ydy o'n fwy na'ch holl anghenion wedi eu rhoi at ei gilydd?' Rhaid ateb ei fod yn wir yn fwy; dydy cypyrddau'r nef byth yn gwagio. Ef, 'sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu' (Eff. 3:20).

Abraham a alwodd y Duw a oedd wedi gwneud cyfamod ag ef, ac a oedd yn siarad ag ef fel cyfaill, yn '"Yr Arglwydd sy'n darparu"' (Gen. 22:14), wrth iddo orfod wynebu prawf mwyaf ei fywyd ar ben mynydd Moreia. Pan oedd ar fin aberthu ei fab Isaac fe gamodd Duw i mewn a darparu hwrdd, gan arbed bywyd Isaac ac arbed gofid a phoen mawr i Abraham.

Ar adegau fel y rhain mae ein ffydd yng ngallu Duw i ddarparu yn rhoi'r nerth i'n cynnal. Mae gwybod mai Duw yw ffynhonnell ein bywyd yn gyfan, o'r anadl sydd ynom i'n hanghenion dyddiol, yn ein sicrhau ei fod hefyd yn abl i'n cynnal ar awr ein hangen mwyaf. Cawsom weld, nid yn unig ddarpariaeth Duw i Abraham ar awr ei angen, yn hanes aberthu Isaac, ond fe roddwyd cysgod i ni hefyd o'r mwyaf o ddarpariaethau Duw i ni ym mherson ei Fab Iesu Grist. Ynddo ef cawn fynediad uniongyrchol i 'olud y nef'. 'A bydd fy Nuw i, yn cyflawni eich holl angen chwi yn ôl cyfoeth ei ogoniant yng Nghrist Iesu' (Phil. 4:19).

GWEDDI

O Dduw da, rho imi brofi o'th olud yng Nghrist bob dydd, fel y gallaf, pan fyddaf yn fy angen dyfnaf, wybod nad ydy dy ddarpariaeth di ar fy nghyfer yn mynd ronyn yn llai. Yn enw dy Fab Iesu. Amen.